Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

# ROBIN DDU (fl. c. 1450), cywyddwr

**Enw:** Robin Ddu
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cywyddwr
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** David James Bowen

Gelwir ef yn Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd o Fôn yn rhai o'r llawysgrifau. Priodolir tua 90 o gywyddau iddo, ac y mae llawer ohonynt yn rhai brud. Yn un o'r rhain y mae'r bardd yn ymddiddan â'i lyfr brud, math ar gywydd brud a ganwyd hefyd gan Faredudd ap Rhys a Llywelyn ap Cynfrig Ddu o Fôn. Pleidiwr y Tuduriaid ydoedd, a chanodd farwnad i Owain Tudur. Ymhlith ei gywyddau mwyaf adnabyddus y mae'r cywydd marwnad a ganodd i saith o blant Gruffudd ap Rhys ap Maredudd o Loddaeth, a'i gywydd i'r llong a'i dug i Rufain ar bererindod yn 1450. Canwyd marwnad iddo gan Ifan Môn, un o'i ddisgyblion.

## Awdur

**Yr Athro David James Bowen**

## Ffynonellau

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)

*Bulletin of the Board of Celtic Studies*, vii, 243

O. Jones, *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* (1876), i

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q13131114

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Bowen, D. J., (1953). ROBIN DDU (fl. c. 1450), cywyddwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBI-DDU-1450

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government